



Diwylliant

Rhoi lle teilwng i'r "eraill"

"Fel arfer mae synthesis yn mynd ymlaen rhwng y ddau beth, y stiwdio a'r space, a'r cyd-destun"



gan **Non Tudur**
dros flwyddyn yn ôl

Mae arddangosfa sy'n ennyn chwilfrydedd go-iawn ar fin agor yn Oriol Mostyn...



Fe fydd gwaith yr artist a'r awdur o Fôn, Angharad Williams, sydd wedi gwneud enw iddi hi ei hun yn sîn gelf gyfoes Berlin ac Essen yn yr Almaen, yn llenwi Oriol Mostyn yn Llandudno'r mis yma.

'Picture the Others' yw enw ei harddangosfa unigol gyntaf yng Nghymru, er ei bod wedi dangos ei gwaith yn Fiena,

Berlin, Llundain, Glasgow, Munich, a Bern. Serch hynny, mae hi'n dawel hyderus y caiff Cymry flas ar y gwaith am ei fod yn ymdrin â'i magwraeth Gymraeg ym Mae Trearddur.

Artist aml-gyfrwng, a chyfoes iawn, yw Angharad Williams – sy'n defnyddio paentiadau, ffilm, gosodwaith, yn chwarae ar eiriau, cyfresi o ganfasau mawr, ac yn perfformio gwaith ei hun.

↗ Poblogaidd

- 1 Mudiadau'n mynegi pryder am fwriad Adran Addysg Gwynedd o ran addysg Gymraeg
- 2 Teyrngedau i gyn-arweinydd Cyngor Sir Ceredigion
- 3 Haven yn pwysleisio'u bod nhw'n "aelod balch o gymuned Pwllheli" wedi dadl dros arwyddion Saesneg
- 4 "Pen tost" – galw am symud Diwrnod y Llyfr
- 5 "Dylai fod mwy o wasanaethau fel fy un i," medd barbwr sy'n cynnig

“Dw i'n gweithio efo p'run bynnag *medium* sy'n siwtio'r syniad,” meddai wrth **Golwg**, dros y ffôn o Ferlin. “Dw i wedi dechrau peintio'n ddiweddar. *Airbrush* ydi'r *paintings* yma, *paintings infra-red* o lygod bach. Y *medium* gorau ar gyfer dal y golau, neu *rendering* o olau, ydi *airbrush*.”

Mae hi'n anodd iddi roi brasamcan syml o'r themâu mae hi'n ymdrin â nhw. Mae hynny, fodd bynnag, ond yn codi chwilfrydedd rhywun fwyfwy i weld y gwaith. “Dw i ddim yn gweithio mewn ffordd sy'n *strict* i un thema,” meddai. “Mae yna lot o bethau'n mynd ymlaen.

“Dw i'n cael fy ngwahodd weithiau i wneud comisiynau ar gyfer sioeau grŵp, weithiau gomisiynau i wneud sioeau ar fy mhen fy hun. Weithiau bydda i'n dechrau efo'r gofod, yn llythrennol yn mynd yno ac yn meddwl, ‘ocê, sut mae hwn yn teimlo? Beth sydd wedi cael ei ddangos yma o'r blaen? Beth sy'n digwydd yn y stiwdio ar y pryd?’

“Fel arfer mae synthesis yn mynd ymlaen rhwng y ddau beth, y stiwdio a'r *space*, a'r cyd-destun.”

Fe fydd hi'n hoffi ymateb i ofod yr oriel, yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd yn ei bywyd hi ar y pryd, meddai.

Ond mae hi'n addo y bydd ymwelwyr yn gallu uniaethu â'i darnau yn y Mostyn. Llun o stafell fyw yw prif ddelwedd hysbys yr arddangosfa ar y wefan, stafell ag ynddi biano o flaen ffenestr fawr grom. Ar un olwg, mae'n ddelwedd nodweddiadol o gartref Cymreig cyfoes, neu drefol. Ond mae'r silffoedd gwag wrth ochr y piano.

Mae'r llun yn ymateb i sefyllfa sy'n gyfarwydd iawn i sawl teulu'r dyddiau yma yng nghefn gwlad, ac un bersonol iawn i'r artist.

“Llun ydi hwnna o gartref fy nhaid,” meddai. “Roedd wedi cael ei adeiladu gan ei dad. Dw i'n dod o ardal o ogledd Cymru... wrth y môr, ac mae'r prisiau cartrefi yn y pentref lle dw i'n dod o wedi codi'n aruthrol. Oherwydd hynny, yn



Ffotograff o gysgod yr artist Angharad Williams ar fur stafell fyw hen gartref ei thaid yw un o ddelweddau amlwg y sioe

anffodus, mae o ar y farchnad.

“Rydach chi'n gweld pianos, a dy'n nhw ddim gwerth dim byd. Rydach chi'n gorfod eu rhoi nhw i ffwrdd. Ond mae yna rywbeth reit symbolaidd am y llun yna i fi... y piano a oedd yn llenwi'r tŷ efo cymaint o sŵn, a cherddoriaeth... Mae o'n relic neu rywbeth.”

Mae adleisiau eraill yn y sioe o'i magwraeth ym Môn, fel y gyfres o lefydd tân wedi eu creu o wydr a deunyddiau eraill, a ddangosodd gyntaf ym Merlin



Bydd llefydd tân yn rhan o arddangosfa Angharad Williams

dair blynedd yn ôl.

“Ro'n i'n meddwl ei fod o'n syniad da dangos y rhain yng Nghymru, achos dyma o ble daeth y syniad o'r lle tân, wrth gwrs,” meddai. “O dyfu fyny yng Nghymru, dysgu sut i wneud lle tân, a gweld lle mae'r lle tân wedi mynd fwy a fwy *obsolete*, a llai a llai amgylcheddol gyfeillgar.”

Eisiau i bobol ymgolli

Prin yw'r llefydd sy'n arddangos gwaith celf cyfoes iawn yng ngogledd Cymru, yn ôl Angharad Williams – ac mae hi'n falch iawn o'r cyfle i gael sioe fawr yn Oriol Mostyn.

“Yr hyn sydd i'w ddeall efo celf weledol gyfoes... dw i ddim yn trio creu gwaith sy'n anodd ei ddeall,” meddai. “Dw i hefyd ddim yn meddwl bod o'n werth creu gwaith sydd ddim yn gymhleth.

Swyddi



[Cyngor Sir Ceredigion](#)

[Athro/Athrawes \(Mathemateg\)](#)

“Does yna ddim lot o gelf weledol gyfoes yng ngogledd Cymru... Dw i'n gwybod bod Oriel Môn, ac orielau eraill yn dangos gwaith gan artistiaid lleol, ond dw i'n meddwl y bydd pobol yn cael lot allan o'r sioe.

“Mae yna lot o elfennau gwahanol. Mae o'n gyfuniad o waith sy'n ffurfiol, yn *identifiable* – fe fydd pobol yn deall bod rhyw ddarn yn strwythur sy'n debyg i le tân, a *paintings, found objects, fideos...* dw i eisio i bobol ymgolli eu hunain i brofiad yr arddangosfa, fel ei fod ddim yn *total installation*. Dydi o ddim yn *total fantasy*.”

O fyd corau a Glanaethwy

Perfformio a sgrifennu oedd yn mynd â bryd Angharad Williams yn yr ysgol. Nid oes ganddi Lefel A Celf hyd yn oed. Arferai hi fynd i ysgol berfformio Glanaethwy, canu gyda chôr yr ysgol, a chystadlu mewn eisteddfodau. Enillodd ar y storïau byrion yn yr Urdd pan oedd hi'n ifanc iawn.

Nid Celf oedd ei phwnc yn y brifysgol yn Sheffield chwaith, ond 'Communication and Art Management'. “Roedd o'n rybish,” meddai yn blwmp ac yn blaen.

“Roedd gen i ddiddordeb wedyn mewn *artist-led spaces*. Dyna oedd y *real draw* o wneud yr *Art Management*, sef creu modelau amgen o redeg projectau efo pobol eraill.”

Pan raddiodd yn Sheffield, roedd yr argyfwng ariannol ar ei anterth, ac roedd hi'n methu â chael swydd yn unlle. Penderfynodd y byddai'n well iddi ddilyn ei chalon, a gwneud rhywbeth a fyddai'n ei gwneud yn hapus. Awgrymodd ei phartner ei bod hi'n artist greddfoll, ac y dylai fynd i goleg celf Chesterfield i wneud cwrs Sylfaen Celf. Dyna a wnaeth hi, yn 25 oed.

Daeth hi'n rhan o gymuned artistig S1 Artspace yn Sheffield, a buan y cafodd yr awydd i greu project ei hun. Mentrodd i Lundain, a chyd-sefydlu cydweithfa elusennol Woodmill yn rhedeg orielau a stiwdios i artistiaid, yn Bermondsey. “Roedd o'n dipyn o *undertaking*,” meddai. “Roedd ganddon ni tua 100 o stiwdios yn fanna yn cael eu rhedeg efo grŵp o ffrindiau.”

Oherwydd bod cyrsiau Celf prifysgol Llundain yn rhy ddrud, trodd ei golygon tua'r cyfandir. O weithio drwy'r haf yn ddi-baid, llwyddodd i arbed digon o arian i dalu am stiwdio a gweithdy yn yr Iseldiroedd. Aeth i astudio i Rotterdam gan ddilyn gradd meistr mewn Celf. Arhosodd yno am gyfnod, dod yn ôl ac ymlaen i Gymru, a theithio dipyn. “Ro'n i'n byw tipyn bach rhwng bobman,” meddai.


Mae ei chariad yn byw ym Merlin, a symudodd ato ef cyn dechrau'r pandemig. Yn 2020 roedd y ddau ar gyfnod preswyl yn ninas Essen, a bu'n rhaid iddi aros yno oherwydd y cyfnod clo. Wrth i bethau rygnu yn eu blaen o dan gysgod Covid, penderfynodd sefydlu'i hun ym Merlin, a gwneud pethau yn swyddogol.

Mae ei chefnidir eisteddfodol a theuluol yn cael ei adlewyrchu mewn darn arall ganddi, sef llun o gadair seremoni Arwisgo'r Tywysog Charles yn 1969.

“Dw i wedi ffeindio un o'r cadeiriau,” meddai. “Adeg yr Arwisgo cafodd 4,000 o'r cadeiriau yma eu creu. Ar y pryd roeddech chi'n gallu prynu'r gadair am £12. Roedd un o'r cadeiriau yma yn ein cartref ni... Fel dw i'n mynd yn hŷn, dw i'n edrych ar y gadair, a meddwl: ‘*Hang on, mae hwn yn reit hostile*.’”

Er nad yn awyddus i ddefnyddio ei gwaith i frygowthan am ei daliadau gwleidyddol, roedd hi eisieu trafod beth yw ystyr cynnig y cadeiriau yma i'r Cymry fel “*merchandise*”.

“Os rydych chi'n cael eich magu yn mynd i'r eisteddfod – rydych chi'n deall beth ydi pwysigrwydd yr eisteddfod, sy'n llythrennol yn golygu ‘i eistedd efo'n gilydd’” meddai.



Llun o gadair o gyfnod yr Arwisgo yn 1969

"Pan roeddwn i yn meddwl am themâu'r sioe, 'Picture the Others', dyma fi'n gwneud y cyswllt yn fy meddwl i – ei fod o'n bosib bod Prince Charles a'r teulu brenhinol yn ein gweld ni ychydig bach fel 'the others' fel Cymry."

- Angharad Williams, 'Picture the Others', Oriol Mostyn, Llandudno, Sadwrn, 19 Chwefror – Sul, 12 Mehefin



← Stori flaenorol



[Diwylliant](#)

Sylfeini cadarn ers deugain mlynedd

NON TUDUR

"I'ciwn,i feddwl bod y cwrs, dros ei deugain mlynedd, wedi cael effaith yn ddiwylliannol ar y rhan yma o Gymru"

[Stori nesaf →](#)

